Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

22 Mai 2008

Estyn yn amlygu arfer orau wrth ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu ymhlith plant rhwng 7 ac 14 oed

Heddiw, mae Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru, wedi cyhoeddi argymhellion ac arweiniad ar gyfer ysgolion a'u partneriaid ar sut i wella medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion.

"Mae llwyddo mewn darllen ac ysgrifennu yn allweddol i ragolygon cyflogaeth disgyblion ac i ddyfodol Cymru fel gwlad sy'n dysgu. Er bod llawer o ysgolion wedi llwyddo i wella safon Cymraeg a Saesneg disgyblion, yr her yw lledaenu arfer orau yn ehangach ac yn fwy cyson er mwyn i ddysgu ac addysgu medrau darllen ac ysgrifennu ym mhob ysgol ledled Cymru cystal ag y gallant fod", meddai Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae safonau mewn Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru wedi gwella er 2000. Fodd bynnag, nid yw tua thraean o ysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd, yn gwneud digon i ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion ar draws holl bynciau'r cwricwlwm, sy'n amharu ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Mae arolygwyr wedi canfod bod disgyblion yn ysgrifennu orau pan ofynnir iddynt ysgrifennu at ddibenion a chynulleidfaoedd go iawn sy'n berthnasol i'w diddordebau, er enghraifft, erthyglau ar gyfer cylchgronau, pamffledi neu bosteri ar faterion cyfoes, cyflwyniadau llafar a storïau, cerddi a sgriptiau drama sy'n cael eu rhannu ag eraill.

Mae ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf mewn llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd ac mae hyn wedi creu gwelliannau mewn llythrennedd. Yn y gwersi mwyaf effeithiol, mae staff yn creu cysylltiadau rhwng siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu er mwyn i ddisgyblion ddeall y modd y mae'r gwahanol agweddau hyn ar ddefnyddio iaith yn cysylltu â'i gilydd. Pan fydd staff yn datblygu'r medrau hyn trwy destunau diddorol a heriol, caiff disgyblion eu cymell yn gryfach i ddod yn ddarllenwyr annibynnol ac yn gyfathrebwyr bodlon.

Mae mwyafrif y rhaglenni cymorth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn cael rhywfaint o effaith wrth helpu disgyblion i wella eu darllen a'u sillafu. Fodd bynnag, er gwaethaf y cymorth hwn, mae disgyblion llai abl, yn enwedig bechgyn, yn aml yn gwneud cynnydd araf yn eu dysgu oherwydd eu medrau llythrennedd gwael. Byddai llawer o ddisgyblion llai abl mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn elwa ar gael mwy o gymorth gydag ysgrifennu, yn enwedig wrth iddynt fynd yn hŷn ac ysgrifennu tasgau mwy cymhleth. Dim ond lleiafrif o ysgolion sy'n darparu tasgau darllen ac ysgrifennu digon blaengar a heriol ar gyfer disgyblion abl a dawnus.

Dros y deng mlynedd diwethaf, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched wedi cynyddu, gyda'r bwlch mwyaf mewn ysgrifennu. Mae adroddiad Estyn yn edrych ar yr effaith a gaiff gwahanol arddulliau dysgu bechgyn a merched ar eu medrau darllen ac ysgrifennu, ac mae'n gwneud argymhellion ar gyfer sut y gellir mynd i'r afael â'r broblem hon.

Mae rhai o'r dulliau gwahanol y mae arolygwyr yn gweld ysgolion yn eu defnyddio i fynd i'r afael â medrau darllen ac ysgrifennu gwael yn cynnwys gwella darpariaeth llyfrgell, annog disgyblion i ddarllen yn ehangach er pleser, astudio mwy o farddoniaeth, a marcio eu sillafu, eu hatalnodi a'u gramadeg eu hunain a'i gilydd.

Mae Estyn hefyd yn galw ar ysgolion ac awdurdodau lleol wneud defnydd gwell o wybodaeth asesu i sicrhau bod gwaith yn ysgogol a'i fod yn cyd-fynd ag anghenion disgyblion, a'i fod yn ystyried y medrau y mae pob disgybl yn eu dysgu ym mhob grŵp a sector. Wrth i ddisgyblion fynd yn eu blaenau o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, maent yn ei chael yn anodd llwyddo yn y cwricwlwm ehangach os nad oes ganddynt fedrau darllen ac ysgrifennu da. Yn yr arfer orau, mae staff ysgolion cynradd ac uwchradd yn rhannu gwybodaeth am gyflawniadau blaenorol disgyblion a'u hanghenion dysgu mewn darllen ac ysgrifennu, er mwyn sicrhau bod eu dysgu yn cynnwys y lefel gywir o gymorth a her.

Mae Estyn yn trefnu cynhadledd ym mis Medi 2008 a bydd cynrychiolwyr yn cael eu gwahodd o ysgolion, awdurdodau addysg lleol a swyddogion o Lywodraeth Cynulliad Cymru, i drafod y modd y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru wella safonau mewn darllen ac mewn llythrennedd.

Nodiadau i Olygyddion:

- Mae Estyn, swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn darparu gwasanaeth arolygu a chyngor o ansawdd uchel.

- Comisiynwyd adroddiad Estyn, 'Arfer orau yng ngwaith darllen ac ysgrifennu disgyblion rhwng 7 ac 14 oed', gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

- Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth mewn Cymraeg a Saesneg fel pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Mae'n arfarnu arfer mewn meysydd allweddol dysgu ac addysgu Cymraeg a Saesneg.

- Mae copïau llawn o'r adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:
Alexandra Doel
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464